***Mae fersiwn Saesneg o'r ddogfen hon ar gael.***

# Polisi Derbyniadau

## Cwmpas a Diben y Polisi

Yn sail i'r polisi hwn mae gwerthoedd y Coleg - Ysbrydoledig, Cynhwysol a Dylanwadol - a bydd yn cefnogi'r Coleg i weithio tuag at ein hysgogiadau allweddol, sef Ansawdd, Effeithlonrwydd a Thwf.

Bydd y polisi yn ymgorffori'r egwyddorion canlynol:

- Rhaid i'r rheiny sy'n cael mynediad i Goleg Caerdydd a'r Fro fod yn **rhydd rhag gwahaniaethu**.
- Bydd dysgwyr yn cael eu cefnogi i'w **galluogi** i gyflawni eu **potensial** yn ystod eu hamser yn y coleg, mewn amgylchedd sy'n lleihau neu'n cael gwared ar anfantais, yn cymryd camau i fodloni eu hanghenion ac yn annog cyfranogiad.
- Byddwn yn cefnogi dysgwyr i ddatblygu'r sgiliau sydd eu hangen arnynt i **symud ymlaen** yn llwyddiannus drwy gydol eu bywydau.

## Diben y polisi hwn yw:

- Sicrhau bod y broses dderbyniadau i'r coleg yn deg, yn dryloyw ac yn darparu cyfleoedd cyfartal, wrth gynnal uniondeb proffesiynol.

- Sicrhau bod CCAF yn croesawu ceisiadau gan ein cymuned gyfan, heb wahaniaethu ar sail rhywedd, hil, anabledd, oed, crefydd na chred, ffydd, statws economaidd-gymdeithasol, cyfrifoldeb dros ddibynyddion, cyfeiriadedd rhywiol, beichiogrwydd a mamolaeth, ailbennu rhywedd, statws priodasol neu bartneriaeth sifil.

- Sicrhau bod CCAF yn gweithredu proses dderbyniadau i'r coleg sy'n lleihau neu'n cael gwared ar anfantais, yn cymryd camau i fodloni anghenion y dysgwr ac yn annog cyfranogiad.

- Darparu dyletswydd gofal i'r Coleg, ei staff, ei ddysgwyr a'i gymuned ehangach.

Mae'r polisi hwn yn berthnasol i'r holl fyfyrwyr ar raglenni dysgu ni waeth beth fo modd neu leoliad yr astudiaeth.
Mae'r polisi hwn yn berthnasol i'r holl staff, p'un a yw'n rôl academaidd neu fusnes o fewn y Coleg.
Mae'r polisi hwn yn berthnasol i'n holl bartneriaid a sefydliadau breiniol.

## Datganiadau Polisi



| | |
|---|---|
| **Adolygiad Rhif:** | 3 |
| **Dyddiad Adolygu Diwethaf** | 19/06/2024 |
| **Dyddiad Adolygu Nesaf:** | 19/06/2026 |

- Ddatblygu gweithdrefnau i amlinellu sut fydd gofynion y polisi yn cael eu bodloni mewn ymarfer ac a fydd yn cyfateb yn llawn i ddeddfwriaeth a chanllawiau cysylltiedig.
- Amlinellu rolau a chyfrifoldebau fel rhan o'r gweithdrefnau cysylltiedig.
- Hyfforddi'r holl staff yn llawn ar y gweithdrefnau cysylltiedig â'r ddeddfwriaeth a chanllawiau sy'n sail iddynt; bydd yr hyfforddiant hwn ar lefel addas i'w rôl.
- Hysbysu pawb sy'n cael eu heffeithio gan y polisi hwn a'r gweithdrefnau cysylltiedig o'u cynnwys, ynghyd â'u goblygiadau; bydd hyn yn cynnwys partneriaid a sefydliadau breiniol.
- Darparu'r adnoddau perthnasol er mwyn gallu cyflawni'r gweithdrefnau cysylltiedig yn effeithiol ac effeithlon.
- Cofnodi a monitro data sy'n gysylltiedig â'r polisi hwn a'i weithdrefnau, gan gyfeirio'n benodol at unrhyw ofynion allanol megis deddfwriaeth, canllawiau etc.
- Adolygu'r data uchod i roi ystyriaeth i effeithiolrwydd y polisi hwn a'i weithdrefnau i gefnogi gwelliant parhaus.
- Sicrhau bod yr holl ddarpar ddysgwyr yn cael eu trin yn gyson, yn deg ac yn ddiduedd.
- Cydymffurfio â pholisïau'r holl bartneriaid a sefydliadau breiniol lle y bônt yn brif recriwtiwr.
- Sicrhau yr ymdrinnir â phob cais yn gyfrinachol ac yn brydlon, yn unol â chalendr Derbyniadau'r Coleg.
-

## Ceisiadau gan ddysgwyr sydd ag anghenion dysgu ychwanegol, anableddau a/neu anawsterau dysgu

Caiff ceisiadau gan ddysgwyr sydd ag anghenion dysgu ychwanegol, anableddau a/neu anawsterau dysgu eu hystyried ar yr un sail ag eraill, fodd bynnag, gofynnir i ymgeiswyr ddarparu manylion o unrhyw anghenion cymorth yn ystod y broses ymgeisio. Gwneir hyn er mwyn sicrhau bod y coleg yn gallu diwallu anghenion cymorth yr ymgeiswyr a sicrhau bod y cymorth wedi'i sefydlu cyn iddynt ddechrau eu cwrs. Gallai unrhyw oedi o ran rhannu'r wybodaeth hon gyfyngu ar allu'r coleg i sicrhau bod trefniadau cymorth prydlon a phriodol ar waith.

Gallai ceisiadau fod yn destun adolygiad gan Banel Cynhwysiant y Coleg, sy'n gyfrifol am sicrhau y gall y Coleg wneud darpariaeth ddigonol ar gyfer dysgwyr. Pe bai'r Panel Cynhwysiant yn dod i benderfyniad nad oes modd i'r coleg ddarparu

disodli unrhyw gynigion cwricwlwm. Bydd penderfyniad y Panel Cynhwysiant yn cael ei roi gerbron y Pennaeth Cynorthwyol Ansawdd, Addysgu a Dysgu i'w gadarnhau a'i gymeradwyo. Gall yr ymgeisydd apelio penderfyniad a wnaed gan y Panel Cynhwysiant.

## Gwrthod

Mae'r Coleg yn cadw'r hawl i wrthod unrhyw ymgeisydd ar sail y rhesymau canlynol:

- *Darparu gwybodaeth ffug neu gamarweiniol ar ffurflen gais*
- *Methu â chwblhau cyrsiau astudiaeth dewisol dro ar ôl tro*
- *Ymddygiad blaenorol tuag at staff neu fyfyrwyr, neu ar y campws*
- *Diarddeliad o'r coleg drwy'r broses rheoli ymddygiad*
- *Dyledion gyda'r coleg nas talwyd, heb unrhyw drefniadau ffurfiol ar waith i'w talu*
- *Panel Cynhwysiant yn dod i benderfyniad nad oes modd i'r coleg ddarparu cymorth digonol na/neu fodloni anghenion y dysgwr yn ddiogel*
- *Methiant i fodloni meini prawf y Datganiad Cofnod Troseddol*
- *Tystiolaeth y gallai derbyniad i'r coleg effeithio'n negyddol ar lesiant eraill Mae hyn yn ymwneud â dyletswydd gofal y Coleg i'n holl staff, dysgwyr a'n cymuned, yn ogystal â rhwymedigaethau diogelu'r Coleg*
- *Hawl yr adran Cwricwlwm i wrthod ymgeisydd*
- *Hawl y Coleg i wrthod ymgeisydd*

Bydd yr uchod yn cael ei adolygu gan banel mynediad teg, wedi'i gadeirio gan y Pennaeth Adran perthnasol i asesu addasrwydd i astudio mewn amgylchedd coleg a dyletswydd gofal i staff, myfyrwyr a'n coleg a'r gymuned.

Pe byddai ymgeisydd yn dymuno apelio yn erbyn y ffaith ei fod wedi'i wrthod rhag dilyn cwrs yn y coleg, dylid trafod hyn yn anffurfiol gyda'r Pennaeth Gwasanaethau Myfyrwyr neu'r swyddog dynodedig yn gyntaf.

Pe na byddai hyn yn cael ei ddatrys yn anffurfiol, ymdrinnir ag apêl ysgrifenedig ffurfiol yn unol â Gweithdrefnau Canmoliaethau, Pryderon a Chwynion y Coleg. Bydd cyfathrebiadau â dysgwyr ac eraill yn cael eu cynnal yn unol â'n Polisïau a Gweithdrefnau Diogelu Data.

Mae'r Coleg yn cadw'r hawl i dynnu unrhyw gwrs yn ôl pe na byddai'n cael ei ystyried yn ymarferol i'w gynnal mwyach.

## Cyfrifoldebau

**Bydd y Corff Llywodraethu yn gyfrifol am sicrhau bod:**



- Y Polisi yn cael ei adolygu yn rheolaidd (yn unol â thelerau adolygu'r polisi) ac y rhoddir cyngor priodol ar y cynnwys. Y Prif Fwrdd yn cymeradwyo'r polisi.

**Bydd yr Uwch Dîm Arwain a Gweithredol yn gyfrifol am:**

- sicrhau bod y trefniadau ar gyfer derbyniadau i'r coleg a rheoli'r broses honno yn effeithiol ar draws y coleg.
- datblygu trefniadau llywodraethu effeithiol a sicrhau bod polisïau perthnasol wedi'u sefydlu ar draws y coleg, yn cynnwys adolygu'r polisi hwn ac unrhyw weithdrefnau cysylltiedig.
- dyrannu adnoddau digonol i Dderbyniadau.
- sicrhau y cymerir camau priodol i fonitro data sy'n gysylltiedig â'r polisi hwn a bod y data hwn yn cael ei ddefnyddio i lywio a gwella arfer.

**Mae Panel Cynhwysiant y Coleg yn gyfrifol am:**

- Sicrhau y gall y Coleg ddarparu'n ddigonol ar gyfer dysgwyr ag anghenion cymorth.
- Cadw cofnod o achosion eithriadol lle mae ymgeisydd wedi'i wrthod i'r coleg ar y sail nad yw'r cymorth ychwanegol perthnasol ar gael a/neu ei fod yn risg sylweddol o niwed fel na fyddai modd i'r coleg ei reoli'n rhesymol a diogel.
- Sicrhau bod y rhai sy'n ymgeisio am raglenni arwahanol megis Sgiliau Byw'n Annibynnol, yn bodloni'r meini prawf ar gyfer y cyrsiau hynny.
- Bydd y coleg yn darparu cyngor ynghylch addasrwydd y rhaglenni a'r cymorth a/neu gyfarpar sydd ar gael.

**Mae'r holl Staff yn gyfrifol am:**

- Sicrhau bod y polisi hwn ac unrhyw weithdrefnau cysylltiedig yn cael eu gweithredu'n effeithiol.
- Trin pob dysgwr gydag urddas a pharch, i sicrhau nad yw eu hymddygiad eu hunain yn achosi camddealltwriaeth neu dramgwydd.
- Gweithio o fewn gofynion Diogelu Data a'r Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data.
- Cyfathrebu'n effeithiol gyda staff i sicrhau bod anghenion dysgwyr yn cael eu bodloni.
- Ymgymryd â hyfforddiant priodol a diweddariadau o ran gwybodaeth yn ôl y gofyn.

**Deddfwriaeth a Chanllawiau**

Deddf Adsefydlu Troseddwyr 1974
Deddf Gwrthderfysgaeth a Diogelwch 2015
Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg 2018
Cod Anghenion Dysgu Ychwanegol Cymru 2021

## Datganiad Cydraddoldeb ac Amrywiaeth

Cardiff and Vale College
Coleg Caerdydd a'r Fro

Yn unol â gweithdrefnau'r coleg, bydd Asesiad o Effaith ar Gydraddoldeb (EIA) yn cael ei gynnal ar y polisi hwn.

## Goblygiadau Iechyd a Diogelwch

Gofynnir i ymgeiswyr sy'n datgelu euogfarn drosedd wedi'i disbyddu/heb ei disbyddu i gwblhau a chyflwyno datgeliad cofnod troseddol cyfrinachol a chânt eu cyfeirio i'r Tîm Diogelu. Rydym wedi ymrwymo i ddarparu ar gyfer pob ymgeisydd wrth gynnal ein dyletswydd i ddarparu amgylchedd dysgu diogel ar gampysau'r Coleg.

## Safonau'r Gymraeg

Mae'r polisi hwn yn rhoi cyfleoedd i unigolion ddefnyddio naill ai'r Gymraeg neu'r Saesneg. Mae'r dyletswyddau sy'n deillio o'r Safonau yn golygu na ddylai sefydliadau drin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg, yn ogystal â hyrwyddo a hwyluso defnydd o'r Gymraeg ac o ganlyniad yn ei gwneud hi'n haws i bobl ei defnyddio yn eu bywyd bob dydd.

**Cyfeiriadau**

**Polisïau Cysylltiedig**

- Datgeliad Cofnodion Troseddol
- Polisi Ffioedd
- Cydraddoldeb ac Amrywiaeth
- Diogelu
- Cydraddoldeb ac Amrywiaeth - Datgeliad
- Diogelu Data
- Datgeliad Dysgwyr

**Gweithdrefnau Cysylltiedig**

- Diogelu Data
- Datgeliad Cofnodion Troseddol
- Derbyniadau AU
- Cronfa Ariannol Wrth Gefn
- Teithio
- Gofal Plant
- Cwynion, sylwadau a chanmoliaethau
- Diogelu
- Cydraddoldeb ac Amrywiaeth - Datgeliad

- Cydraddoldeb ac Amrywiaeth
- Gweithdrefn Datgeliad Dysgwyr
- Gweithdrefn y Panel Cynhwysiant

**Cyfathrebu a Storio**

Caiff y polisi hwn ei gyhoeddi ar wefan y cwmni.
Caiff y polisi hwn ei storio ar fewnrwyd y cwmni.
Caiff y polisi hwn ei rannu â dysgwyr.

**Geirfa**

Dim

**Cymeradwyo, Addasu ac Adolygu**

Caiff y polisi hwn ei adolygu bob 2 flynedd.

Mae fersiwn Saesneg o'r ddogfen hon ar gael.

**Dyddiad cymeradwyo: 19eg Mehefin 2024**

**Cymeradwywyd gan: CQSA**

**Dyddiad adolygu: 19eg Mehefin 2026**

**Rheolwr Cyfrifol: Pennaeth Gwasanaethau Myfyrwyr**

**Arweinydd Gweithredol: Cyfarwyddwr Marchnata**

**Hygyrch i Fyfyrwyr: Ydy**